# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 4 Mai 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

*Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Brian Gibbons (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o geisiadau ProAct a ReAct llwyddiannus yn ôl ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru ers sefydlu'r cynllun. (WAQ55958) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau.***

***Rhoddwyd ateb ar 11 Mai 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths):** Isod, y mae dadansoddiadau o ReAct a ProAct.

**ReAct**

**<u>Darpariaeth gan Ardal Awdurdod Unedol - 1 Hydref 2008 i 31 Mawrth 2010</u>**

| | Hyfforddiant Galwedigaethol ReAct yn Dechrau (UNIGOLION) | Cymhorthdal Cyflogau ReAct yn Dechrau (CYFLOGWYR) | Ymadawyr ReAct | Gwariant a Neilltuwyd i ReAct | Gwir Wariant ar ReAct Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 497 | 91 | 420 | £1,173,303 | £751,501 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,032 | 124 | 805 | £2,182,245 | £1,397,729 |
| Caerffili | 1,198 | 111 | 879 | £2,698,888 | £1,728,640 |
| Caerdydd | 1,258 | 199 | 753 | £3,045,102 | £1,950,389 |
| Sir Gaerfyrddin | 809 | 88 | 406 | £1,776,799 | £1,138,040 |
| Ceredigion | 87 | 37 | 26 | £178,727 | £114,474 |
| Conwy | 235 | 52 | 103 | £432,849 | £277,239 |
| Sir Ddinbych | 241 | 41 | 79 | £528,284 | £338,367 |
| Sir y Fflint | 626 | 80 | 405 | £1,198,897 | £767,894 |
| Gwynedd | 223 | 62 | 97 | £468,157 | £299,855 |
| Ynys Môn | 217 | 51 | 57 | £535,304 | £201.587 |
| Merthyr Tudful | 342 | 57 | 232 | £759,486 | £486,451 |
| Sir Fynwy | 237 | 41 | 126 | £554,247 | £354,996 |
| Castell-nedd Port Talbot | 825 | 109 | 529 | £1,846,805 | £1,182,879 |
| Casnewydd | 618 | 93 | 301 | £1,349,814 | £864,557 |
| Tu allan i Gymru | 131 | 8 | 79 | £238,390 | £186,918 |
| Sir Benfro | 720 | 50 | 345 | £1,422.025 | £910,807 |
| Powys | 395 | 120 | 138 | £876,580 | £561,450 |
| Rhondda Cynon Taf | 1,265 | 149 | 878 | £2,848,625 | £1,821,880 |
| Abertawe | 794 | 143 | 515 | £1,723,877 | £1,104,142 |
| Bro Morgannwg | 570 | 67 | 363 | £1,385,354 | £887,320 |
| Tor-faen | 398 | 59 | 242 | £877,710 | £562,174 |
| Wrecsam | 568 | 65 | 386 | £1,103,345 | £706,693 |
| **Cyfanswm Awdurdod Unedol** | **13,286** | **1,897** | **8,164** | **£29,249,813** | **£18,595,982** |

**ProAct**

**Dadansoddiad o geisiadau ProAct 2 Ionawr 2009 - 30 Ebrill 2010**

| **Awdurdod Unedol** | **Nifer y cyflogeion a gynorthwywyd** | **Cwmnïau â cheisiadau a gymeradwywyd** | **Cyfanswm yr arian a neilltuwyd** | **Arian a neilltuwyd ar gyfer hyfforddiant** | **Arian a neilltuwyd ar gyfer cyflog** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 62 | 5 | £180,381 | £95,531 | £84,850 |
| Blaenau Gwent | 557 | 9 | £1,310,366 | £743,679 | £566,687 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 157 | 6 | £327,074 | £204,749 | £122,325 |
| Caerffili | 814 | 8 | £1,911,462 | £1,147,570 | £763,892 |
| Caerdydd | 470 | 16 | £1,247,503 | £561,480 | £686,023 |
| Sir Gaerfyrddin | 752 | 17 | £2,696,451 | £1,424,387 | £1,272,064 |
| Ceredigion | 8 | 1 | £31,680 | £15,680 | £16,000 |
| Conwy | 17 | 2 | £28,591 | £14,466 | £14,125 |
| Sir Ddinbych | 434 | 8 | £1,065,256 | £586,685 | £478,571 |
| Sir y Fflint | 741 | 6 | £1,539,132 | £999,614 | £539,518 |
| Gwynedd | 56 | 6 | £99,396 | £60,821 | £38,575 |
| Merthyr | 424 | 5 | £869,157 | £390,946 | £478,211 |
| Sir Fynwy | 168 | 5 | £541,453 | £259,028 | £282,425 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1388 | 15 | £3,282,710 | £2,425,706 | £857,004 |
| Casnewydd | 385 | 8 | £989,169 | £545,468 | £443,701 |
| Sir Benfro | 172 | 10 | £610,252 | £301,386 | £308,866 |
| Powys | 510 | 16 | £1,781,154 | £925,592 | £855,562 |
| RhCT | 779 | 21 | £2,668,664 | £1,383,165 | £1,285,499 |
| Abertawe | 723 | 29 | £2,207,790 | £1,184,375 | £1,023,415 |
| Tor-faen | 675 | 10 | £739,529 | £410,169 | £329,360 |
| Bro Morgannwg | 34 | 4 | £124,151 | £55,128 | £69,023 |
| Wrecsam | 417 | 11 | £956,856 | £536,581 | £420,275 |
| | **9743** | **218** | **£25,208,177** | **£14,272,206** | **£10,935,971** |

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Eleanor Burnham (Gogledd Cymru):** Pa ffactorau a ystyriwyd wrth bennu maint y dyraniad grant ar gyfer pob awdurdod lleol dan y £1.75m o gyllid a gyhoeddwyd yn ddiweddar i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau cynllunio eu cyflenwi ledled Cymru. (WAQ55964)

***Rhoddwyd ateb ar 11 Mai 2010***

Mae awdurdodau cynllunio lleol yn allweddol ar gyfer cyflwyno gwasanaeth ceisiadau cynllunio effeithiol ac effeithlon, ac mae arian wedi'i neilltuo yn ystod y blynyddoedd diwethaf i sicrhau gwelliannau o ran darparu gwasanaethau lleol.
Hyd yma mae arian wedi'i glustnodi'n gyfartal i bob un o'r 25 awdurdod cynllunio lleol, gyda grant o £70K ar gael os bydd pob awdurdod yn cyflwyno cynllun gwariant, yn nodi'r defnydd arfaethedig o'r grant, i'w gymeradwyo. Mae'r gwelliannau a gefnogir yn cynnwys, er enghraifft, datblygu trefniadau

gweithio ar y cyd rhwng awdurdodau cynllunio, rhannu gwasanaethau cynllunio arbenigol a gwneud defnydd gwell o wasanaethau cynllunio ar-lein.
Yn sgîl yr argymhellion yn yr astudiaeth i ymchwilio i'r broses ceisiadau cynllunio yng Nghymru, byddwn yn adolygu'r cymorth sy'n cael ei roi i awdurdodau cynllunio lleol.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn yr ateb i WAQ55758, pryd y bydd y Gweinidog mewn sefyllfa i ddarparu manylion ynghylch y lefelau staffio ar gyfer Uned Cefnogaeth Rhagnodi Dadansoddol Cymru. (WAQ55959)

***Rhoddwyd ateb ar 11 Mai 2010***

Mae Partneriaeth Meddyginiaethau Cymru wedi rhoi dau fferyllydd ar secondiad yn ystod 2010/2011 a fydd yn mynd i'r afael â ffrydiau gwaith Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella gwasanaethau diagnostig cynnar gyfer cleifion canser. (WAQ55960)

***Rhoddwyd ateb ar 11 Mai 2010***

Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ55951.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i addysgu pobl ynghylch manteision sgrinio am ganser. (WAQ55961)

***Rhoddwyd ateb ar 11 Mai 2010***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer cydweithio â sefydliadau gwirfoddol i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o ganser drwy ddefnyddio dull sy'n targedu meysydd lle mae nifer yr achosion yn cynyddu. Yn ogystal, mae gwefan Her Iechyd Cymru a'r daflen, 'Canser: lleihau'r risg', yn annog unigolion i fynd am brofion sgrinio canser.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rheoli ac yn hyrwyddo'r tair rhaglen sgrinio canser sy'n seiliedig ar boblogaeth ar gyfer atal a chanfod canser yn gynnar. Mae'r tair rhaglen hyn - Bron Brawf Cymru, Sgrinio Serfigol Cymru a Sgrinio Coluddion Cymru yn ceisio hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynyddu nifer y bobl sy'n ymgymryd â phrofion sgrinio, mewn ymgynghoriad â grwpiau defnyddwyr posibl, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r sector gwirfoddol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pryd y bydd y Gweinidog yn cyhoeddi cynlluniau gweithredu canser y Byrddau Iechyd Lleol. (WAQ55962)

***Rhoddwyd ateb ar 11 Mai 2010***

Ni fyddaf yn cyhoeddi'r cynlluniau gweithredu hyn. Maent yn eiddo i'r Byrddau Iechyd Lleol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i sicrhau bod pawb yr amheuir bod canser arnynt yn cael profion diagnostig priodol yn ddiymdroi. (WAQ55963)

***Rhoddwyd ateb ar 11 Mai 2010***

Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ55951.